

# Mentro ar Dduw

*“Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd. Nid eich gwaith chwi yw hyn; rhodd Duw ydyw.” (adn. 8)*

## Beth am ddarllen Effesiaid 2:1–10 ac yna myfyrio

Rhaid inni aros am ychydig ddyddiau hefo'r cwestiwn o ffydd er mwyn inni ddeall ychydig yn well cyn inni fentro ar y dasg o ychwanegu ato. Mae'r adnod sydd o'r n blaen heddiw, un o adnodau mawr yr Ysgrythur, yn ei gwneud yn berffaith glir mai Duw ei hun yw tarddle ffydd. Yr ydym yn cael ein hachub trwy ras, trwy ffydd – mae hyn yn rhodd Duw. Mewn ffordd ddirgel, mae Duw yn dod at berson sydd yn ymestyn tuag ato, ac yn rhoi gras i gredu ac i dderbyn. Sylwch ar yr ymadrodd 'credu a derbyn'. Nid yw credu sydd heb symud tuag at dderbyn yn ffydd yn ystyr Feiblaidd y gair.

Yn y Testament Newydd, mae ffydd yn cael ei disgrifio mewn amryw ffyrdd ac mae pob disgrifiad yn cyfrannu at ddealltwriaeth ddyfnach o'r hyn ydyw. Yn yr efengylau, fe gysylltir y gair yn fynych â gwyrthiau iachau yr Arglwydd. Roedd Iesu yn medru adnabod ffydd ac roedd ei gyffyrddiad iachusol yn gorffwys ar rai oedd trwy ffydd yn dod ato ac yn disgwyl gwrth. Yn llythyron Paul, mae ffydd yn cael ei disgrifio fel ymddiriedaeth bersonol. Mae'n ei gwneud yn glir bod ymddiried ein hunain yn llwyr i'r Crist yn agor drws, a thrwy'r drws yma medrwn gael meistrolaeth ar foesoldeb. Mae'r llythyr at yr Hebraeid yn datguddio fod ffydd yn fath o welediad ysbrydol. Dyma'r grym sydd yn ein cynorthwyo i weld y realiti sydd yn gorwedd y tu ôl i'r hyn sydd ond yn ymddangosiadol. I'r apostol Pedr, ffydd yw yr hyder sydd gennym fod yr hyn a ddywed Iesu yn wir ac y medrwn ymddiried yn llwyr yn ei addewidion, gan fentro ein bywyd arno ef.

Mae ffydd, fel nofio, bob amser yn wahoddiad i fentro allan ac, fel nofio, ni allwn fod yn sicr nes inni fentro. Am y fam a ddywedodd nad oedd ei phlentyn i fynd i nofio nes y gwyddai sut i nofio, roedd rhaid iddi naill ai newid ei meddwl neu wrthod y profiad iddo am byth.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Num. 13:16–14:11; Heb. 11:1–6

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut all diffyg ffydd gyfyngu ar ein profiad o Dduw?
2. Beth yw eich profiad eich hun o ffydd?

## Gweddi

Fy Nuw, fy Nhad, cynorthwya fi i ddeall mwy am y ffydd yr wyt ti wedi ei rhoi i mi, er mwyn i mi, nid yn unig wybod mwy amdani, ond mentro mwy arni hefyd. Yn enw Iesu. Amen.